**COFNOD O BENDERFYNIADAU'R CABINET – 19 IONAWR 2021**

**Presennol:**

Y Cynghorwyr HJ David (Cadeirydd), HM Williams, D Patel, N Burnett, RE Young a CE Smith

**Swyddogion:** M Shephard, C Marchant, J Nightingale, L Harvey, G Lewis, K Watson, I Sherwood,
Z Shell, D Exton, N Bunston, MA Galvin, M Pitman, M Morgans, L Berry, P O'Brien

**Datganiadau o Fuddiant:** Y Cynghorydd HJ David (buddiant rhagfarnllyd) Eitem 17 ar yr Agenda

**Cymeradwyo Cofnodion:** Cymeradwywyd Cofnodion y Cabinet dyddiedig 15 Rhagfyr 2020 fel
cofnod gwir a chywir.

| Teitl yr Adroddiad | **Cydbwyllgorau Corfforaethol** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn nodi ac yn cymeradwyo'r adroddiad. |

| Teitl yr Adroddiad | **Monitro Cyllideb 2020-21 - Rhagolygon Refeniw Chwarter 3** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi'r sefyllfa refeniw a ragwelir ar gyfer 2020-21;<br>• Yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng £100,000 a £500,000 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.1.19 yr adroddiad. |

| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 3 2020-21** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 am y cyfnod hyd 31 Rhagfyr 2020 (Atodiad A i'r Adroddiad);<br>• Yn cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i gael ei chymeradwyo;<br>• Yn nodi dangosyddion amcangyfrifedig Prudential ac eraill ar gyfer 2020-21 (Atodiad C i'r adroddiad). |

| Teitl yr Adroddiad | **Canlyniad Ymgynghoriad 'Parod ar gyfer y Dyfodol'** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â diddordeb fel y manylwyd yn adroddiad yr ymgynghoriad sydd wedi ei atodi yn Atodiad A i'r adroddiad. |

| Teitl yr Adroddiad | **Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2021-22 i 2024-25** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cyflwyno cyllideb flynyddol 2021-22 a datblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2021-22 i 2024-25, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ar gyfer ymgynghori â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu, cyn cyflwyno fersiwn |

| | |
|---|---|
| | derfynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021. |
| Teitl yr Adroddiad | **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cymeradwyo tynnu'r gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i mewn;<br>• Yn cymeradwyo defnyddio'r gyllideb gyfalaf i gefnogi tynnu proses Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i mewn;<br>• Yn cymeradwyo ymrwymo i'r cytundeb cydweithio â CNPT ac yn atal y rhannau perthnasol o reolau gweithdrefnau contract y Cyngor mewn perthynas â'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael y gwasanaeth GCA y bydd CNPT yn eu cyflawni;<br>• Yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb cydweithio â CNPT ar ran y Cyngor ac i drefnu i'r cytundeb cydweithio gael ei weithredu ar ran y Cyngor, ar yr amod bod y cyfryw awdurdod dirprwyedig yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Contract Rheoli Plâu** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cytuno i edrych i mewn i lwybrau pellach gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddiol (sy'n darparu cymorth rheoli plâu i Gynghorau Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg) gyda golwg ar ddewisiadau eraill posibl i'w dilyn o ran Rheoli Plâu, sy'n wahanol i'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad.<br><br>• Yn cymeradwyo atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefnau Contract y Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i aildendro ac yn awdurdodi'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid i ymrwymo i gontract tymor byr o 6 mis gyda'r darparwr gwasanaeth rheoli plâu presennol, sef Rentokil. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Adfywio Glan-y-Môr Porthcawl: Gwerthu Safle'r Siop Fwyd** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cymeradwyo gwerthu safle siop fwyd Porthcawl i Aldi Stores Ltd ac yn ymrwymo i'r cytundeb ar gyfer prydlesu ar y telerau a amlinellir yn yr adroddiad hwn ac am y pris gwerthu a gynigiwyd am y tir ac yn ddarostyngedig i'r pwynt bwled isod.<br>• Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol a'r Swyddog Adran 151, i gymeradwyo telerau'r cytundeb gwerthu ac ymrwymo i'r cytundeb, |

| | |
|---|---|
| | gyda golwg ar gwblhau'r gwerthiant yn gyfreithiol cyn gynted ag y bo modd. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Parc Rhanbarthol y Cymoedd, Porth Darganfod Parc Gwledig Bryngarw** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:-<br>o Yn derbyn y cyllid ychwanegol a'r cynnig grant diwygiedig ar gyfer cyflawni gweithgarwch ym Mharc Gwledig Bryngarw o £647,000 drwy Grant Cyfalaf Safleoedd Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, 2019-2021.<br><br>o Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, i ymrwymo i gytundeb diwygiedig ar gyfer cyflawni'r uchod ac unrhyw fân ddiwygiadau dilynol gyda Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Strategaeth Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030, Llwybr at Gyngor Niwtral o ran Carbon (Sero net)** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet :-<br><br>• Yn cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu strategaeth datgarboneiddio ddrafft "Pen-y-bont ar Ogwr 2030" a chynllun gweithredu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2021 ac yn nodi yr adroddir am y strategaeth ddrafft hon a'r cynllun gweithredu wrth gyfarfod o'r cabinet yn y dyfodol cyn ymgynghori â'r cyhoedd.<br><br>• Yn cymeradwyo ac yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau ymgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ynglŷn â strategaeth datgarboneiddio ddrafft "Pen-y-bont ar Ogwr 2030" a chytuno ar naratif a methodoleg ar y cyd gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer agenda datgarboneiddio i'r Fwrdeistref.<br><br>• Yn cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu strwythur Llywodraethu Rhaglen wedi'i adlinio a phenodi'r Aelod Cabinet dros Gymunedau yn Gadeirydd Bwrdd Rhaglen 2030 fel y nodir yn adran 4.10 o'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cymeradwyo parhau i gyflawni prosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br>• Yn cytuno y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer cynnwys prosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr o fewn y Rhaglen Gyfalaf ac yn cytuno ar |

| | |
|---|---|
| | y benthyciad i'r SPV, yn amodol ar gymeradwyo newidiadau i Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.<br>• Yn nodi y bydd angen diwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i alluogi'r Cyngor i wneud benthyciad o £1.821 miliwn i'r SPV, ac y caiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Rheoli ddrafft y Trysorlys 2021-22 a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ar 28 Ionawr 2021, ac i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Chwefror 2021.<br>• Yn cymeradwyo caffael ac wedyn penodi ymgynghorydd technegol/ariannol a chynghorydd cyfreithiol i baratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br>• Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i dendro am yr ymgynghorydd technegol/ariannol a'r Cynghorydd Cyfreithiol i baratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr a dyfarnu'r contractau i'r tendrwyr llwyddiannus, a bod telerau cytundebol y contractau i gael eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol.<br>• Yn atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefnau Contract y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal caffaeliadau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac yn cymeradwyo caffael contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal ar gyfer Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr drwy ddefnyddio'r weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contract Cyfleustodau 2016.<br>• Yn cymeradwyo Brodies LLP i redeg y broses o gaffael y Contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal o dan y weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contract Cyfleustodau 2016 ar ran y Cyngor.<br>• Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i dendro'r contract ar gyfer contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal ar gyfer Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol gan ddefnyddio'r alwad ymlaen llaw a negodwyd am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contract Cyfleustodau 2016 ac yn nodi y cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet ar ôl gorffen caffael contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal am benderfyniad p'un a ddylid dyfarnu'r contract.<br>• Yn nodi y cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 ar greu'r Cyfrwng i Ddiben Arbennig a fydd yn darparu'r mecanwaith cyflenwi masnachol ar gyfer y prosiect. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Gwres Caerau** |

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:-<br><br>• Yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd gan swyddogion mewn perthynas â chyflawni'r prosiect ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet.<br>• Yn cymeradwyo cynnal arfarniad ar y dewisiadau o fodelau cyflawni gwahanol fel y manylir yn adrannau 4.7 a 4.8 o'r adroddiad.<br>• Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gytuno ar delerau terfynol yr arfarniad ar y dewisiadau mewn ymgynghoriad â Bwrdd y Rhaglen Ynni.<br>• Yn nodi y derbynnir adroddiad pellach unwaith y bydd yr arfarniad ar y dewisiadau wedi'i gwblhau ynghyd â chynnig ar y dewis a ffefrir a ffordd ymlaen ac, os bydd ei angen, argymell diweddariad i'r rhaglen Gyfalaf i'r Cyngor. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Ynni Clyfar - Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn croesawu'r adroddiad ond, cyn symud ymlaen ymhellach, yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r rolau a'r cyfrifoldebau o safbwynt cyflawni ac ar ôl cwblhau. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Caeau Chwarae Cae Gof** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cymeradwyo:<br><br>(1) Yr achos busnes (cynlluniau busnes ac ariannol) a gyflwynwyd gan CCAC i gefnogi prydlesu'r Pafiliwn Bowlio, lawnt bowlio, dau gae rygbi a chyrtiau tennis yng Nghaeau Chwarae Cae Gof drwy ddangos yn glir hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y prosiect.<br><br>(2) Y ceisiadau ariannu cysylltiedig a gyflwynwyd gan CCAC o dan gronfeydd CAT a Rheoli Newid y tynnwyd sylw atynt ym mharagraff 9.2 o'r adroddiad. |
| Teitl yr Adroddiad | **Trefniadau Cam 2 y Cynllun Argyfwng Bysiau** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cytuno ag egwyddorion cytundeb Cynllun Argyfwng Bysiau 2 (Atodiad 2 i'r adroddiad) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i sefydlu perthynas â'r awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, fydd yn sicrhau bod yr arian argyfwng parhaus yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cael ei ddarparu ar ei ran.<br><br>• Yn derbyn adroddiad pellach maes o law ar gynigion i ddiwygio bysiau sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol. |

| Teitl yr Adroddiad | **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr - Caniatâd i ymgynghori ar y Cynnig Statudol** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi'r gwerthusiadau a gynhaliwyd fel y'u mynegwyd yn yr adroddiad;<br><br>• Yn nodi'r dull a ffefrir i gyflawni trefniadaeth angenrheidiol yr ysgolion, sef cau'r ddwy ysgol cyfrwng Saesneg (Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) a sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg ddau ddosbarth newydd ynghyd ag ysgol feithrin gyda 60 lle, gydag ysgol Canolfan Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda 15 lle ar dir ym Mhlas Morlais (i ddod i rym o fis Medi 2023) – a gwneud newid rheoledig i'r ysgol Gymraeg (Ysgol Y Ferch o'r Sgêr) sef ehangu mynediad i ddau ddosbarth ynghyd ag ysgol feithrin Gymraeg gyda 60 lle ar safle presennol Ysgol Gynradd Corneli/Ysgol Y Ferch o'r Sgêr (i ddod i rym o fis Medi 2024) ac;<br><br>• Yn cymeradwyo ymgynghori'n ffurfiol ynghylch cynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr. |

| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad. |